310.

YCHYDIG O

# BENNILLION

A gyfansoddwyd er gwneud un cynnyg bychan

i agor

# LLYGAID DEALL Y BOBL

ag sydd a gallu ganddynt i

## *Ddewis Aelod i'r Senedd.*

---

1

O Sir Aberteifi, hên Sir nhad a mam,
Pa ham yr ysgwddwch chwi gymaint o gam ;
Agorwch eich llygaid bob enaid o ddyn
I ddeffro 'ch myfyrdod o'i hynod drwm hun ;
A gwelwch gwir yw, yn rhywiog bob rhyw,
Mae'ch achos eich hunain, yw Screchain tan Scriw

2

O berfedd tywyllwch, os neidiwch i'r lan,
I wneud yn galonog a rhywiog eich rhan ;

C

2

Er, nabod iawn allwedd sy'n datod pob trais,
A gwaeddwch o'ch gwirfodd clyw'r nefo'dd eich llais;
O ddynion paham, na roddwch un lam,
Y waraidd wych werin,—amddiffyn eich cam.

3

I ddewis iawn aelod i'r Senedd dewch, dewch,
A brysiwch yn brysur mawr gysur a gewch;
Pa bleser o'r bywyd am enyd yn grwn,
Os gwerthir y breintiau am bethau 'r byd hwn;
De'wch byddwch heb ball i ddewis Dyn Call,
Un galon a'n gyfydd a llonydd i'r llall.

4

Pe rhoech, mewn gwirionedd i'r Senedd 'r un fryd,
Holl dylwyth Gogerddan yn gyfan i gyd,
Ni byddai gwybyddir na synwyr na swn
Heb ddwrgi, 'scyfarnog, a llwynog, a chwn;
A cheffyl a gwas, cot goch a chap glas
A chwipau, spardynau, a'r cyrnau swn cas.

5

Fe genfodd y Powell, wr tawel o'r tir;
Diswyddwch Pryse eto mae yno 'n rhy hir:
Ni raid wrth waed honedd, dewiswch ddyn call,
Nid dewis rhyw olion o ddynion fo ddall;

X205 227744

Mae DAVIES ar gael, yn rhywiog wr hael.
Gwyr drafod yn byrion y gwychion a'r gwael.

6

Gwaed bonedd, gwaed bonedd, pa beth yw o bwys?
Mae gwaed yn y gweithiwr ar fynydd Llancrwys,
Mae hwn, bach ei enw'n byw'n hoyw iawn heb
Ddwy geiniog a dimau o ddyled i neb;
A'r gweithiwr bob pryd sy'n cynnal y byd,
Y gweithiwr yn mhob man yw'r cyfan i gyd.

7

Y gweithiwr sydd eto yn twrio pob tir.
Y gweithiwr yw'r mwynwr, y gloiwr yn glir,
Trwy bob gweithiwr cywrain yn Mrydain yn 'mroi,
Mae olwyn fawr helaeth bywioliaeth yn troi;
'Nawr weithwyr dewch chwi bydd llawer o fri,
Gael gweithiwr i'r Senedd am ddim a gwn i.

8

Waeth Ceiliog glâs golau, na cheiliog glâs glâs,
Na melyn na brithwyn, na cheiliog coch bras;
'Run mwya' i ddaioni os dû fydd ei liw
Yw'r mwyaf dymunol i holl ddynolryw;
Whish hw waeddai 'n hy, ar lawer sy' fry,
Fel ceiliog y tywydd yn troi ar ben ty.

Mae llawer o ddynion rhy boethion mewn byd,
Mae llawer mor oered a'r eira o hyd :
Dewiswch ddyn gwresog, fo bwyllog ei ben,
Llawn synwyr i'r Senedd ddyn mwynedd, Amen ;
Nid dyn roddo lais i gymro na sais,
A fyddo mor feddal am gynnal un trais.

10

Trais, gormes, a rhagrith di-fendith o hyd,
A'r trachwant sy'n trechu cyfiawnder y byd ;
O'r werin hardd weithgar pe safech ar draed,
Fe fyddai'n bur fwynaidd y bonedd a'u gwaed ;
Try'n rhyfedd y rhôd, pob peth i'r iawn nôd,
Y bonedd yn fonedd fel dylent hwy fod.

*DANIEL GLOFF.*

*Llanwnnen.*

J. Davis, Argraphydd, Llandedr.